Cofnodioncyfarfod 4 Rhagfyr 2018 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7:00 yn yrhwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Einir Coates	
Casi Roberts	Iestyn Harris	
Eifion Williams	Nerys John	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Gareth Griffiths - Cynghorydd Sir	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd wedi'r aelodau fwynhau paned a mins pei. Croesawyd pawb i gyfarfod mis Rhagfyr wythnos yn gynt oherwydd bod Cyngerdd yr Ysgol Gynradd yn y neuadd ar noson arferol y Cyngor. Dywedodd ei fod yn ymwybodol bod yr Archddiacon Mary Stallard i fod i fynychu'r Cyngor wythnos nesaf ond os na fydd presenoldeb ar gyfer y sgwrs ar ddyfodol Neuadd yr Eglwys yna fyddai well ganddo ohirio'r cyfarfod i gyfarfod arbennig ym mis Ionawr. Roedd pawb yn gytûn. Y Clerc i gysylltu â'r Archddiacon. Ymddiheuriadau - Mei Gwilym, Aled Emyr, Gruff John ac Iwan Huws.	**CLERC**
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Dywedodd y Cynghorydd Sir ei fod wedi ymweld â'r Ysgol Gynradd yn dilyn cyfarfod mis Tachwedd y Cyngor Cymuned. Roedd wedi derbyn ymateb y plant i beth fyddai ei dymuniad hwy i'r Cae Chwarae. Dyma'r rhestr: Monkey bars, hoop basket ball, mud kitchen a thŷ bach, a water works. Cyfeiriodd bod Ffordd Bryn y Waen wedi derbyn sylw gan Gyngor Gwynedd a'i fod yn ymwybodol bod mwd a dŵr ar y ffordd ochr Dinas. Dywedodd bod "Youth Offending Team" dal i allu cynnig gwasanaeth paentio. Trafodwyd eu bod wedi bod yn barod i baentio meinciau o eiddo Cyngor Gwynedd sydd ar Lan y Môr y llynedd ond bod Adran Bwrdeistrefol y Cyngor wedi gwrthod. Mae'r meinciau i gyd angen eu trin. Y Clerc i gysylltu unwaith eto a Chyngor Gwynedd. Roedd wedi gweld y ffarmwr ynglŷn â'r defaid sydd yn crwydro i lwybr Cerrig-yr-afon. Y Cynghorydd Sir i ddelio a'r mater. Roedd y ffarmwr yn awyddus i adrodd bod sbwriel o fewn y cae lle mae pobl ifanc yn ymgasglu. Mater yma hefyd i dderbyn sylw gan y Cynghorydd Sir. Cyflwynodd i'r Cyngor deffib a box i'w gadw ar wal allanol y neuadd. Y Cadeirydd i wneud trefniadau gyda thrydanwr er mwyn iddo gael ei osod. Bydd y gofalwr fel rhan o'r waith gwirio o fewn y neuadd yn gwirio'r defib yn wythnosau	**CLERC – wedi cysylltu a YOT sydd am gysylltu os ydynt yn gallu gwneud gwaith. Wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd a maent hwy am i YOT gysylltu ar gyfer gwneud gwaith.** **DW**

	nesafl. Dywedodd y Cynghorydd Sir ei fod wedi cael cyfarfod ynglŷn â Neuadd yr Eglwys lle'r oedd Barchedig Ganon Robert Townsend a'r Archddiacon Mary Stallard yn bresennol. Y wybodaeth a gafwyd oedd bod swm o £33K o arian heb fyd at neuadd yr Eglwys a bod amod ar y swm ei fod i gael ei ddefnyddio o fewn 5 mlynedd. Mae blwyddyn yn weddill. Cafwyd eglurhad na fydd cynllun ynglŷn â'r neuadd hyd nes bydd y Parchedig Ganon Roger Donaldson wedi ymddeol yn 2020. Roedd y Cynghorydd yn awyddus i gael dealltwriaeth o ddefnyddio'r tir ar gyfer parcio. Cafwyd adroddiad a thrafodaeth ynglŷn â'r bwriad i wneud Canolfan Brynffynnon yn Ganolfan dydd ar gyfer oedolion gydag anableddau dysgu. Bydd y ganolfan ar gael yn yr hwyr yn rhad ag am ddim i'r Gymuned. Mae'r ganolfan wedi derbyn grant o £160K gan Lywodraeth Cymru. Roedd sylwadau wedi eu rhoi i Gyngor Gwynedd ond nid oes llawer o ymateb wedi ei dderbyn i ddyddiad.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Cynghorydd Iestyn Harris – Eitem 8.1	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol gwariant ac adroddiadau'r Cyngor ar gyfer mis Tachwedd. Derbyniwyd y gwariant ac adroddiadau. Cynigwyd ac eiliwyd fel rhai cywir.	
4.2	Mae Cyngor Gwynedd wedi anfon at y Cyngor Cymuned iddynt ystyried y Praesept ar gyfer 2019-2020. Bydd angen anfon ymateb erbyn 25 o Ionawr 2019. Mae'r praesept ar hyn o bryd yn £35k. Trafodwyd bydd angen gwneud cyllideb drafft ac felly mae angen cael costau prosiectau i law er mwyn gallu gwneud cyllideb. Penderfynwyd bod angen dau doriad ychwanegol i wair o fewn y pentref a hyn i gynnwys ei gasglu - dywedodd y Clerc ei bod wedi anfon at Gyngor Gwynedd i gael pris yn barod; Y Clerc i barhau a'r mater hwn. Cafwyd gwybodaeth bydd anfoneb am wasanaeth y toiledau cyhoeddus yn £4000 y flwyddyn. (Nid oes unrhyw ohebiaeth wedi ei dderbyn i law ynglŷn â'r mater hwn). Arian ar gyfer datblygu'r Cae Chwarae i gynnwys £5k am eleni a £5k am y flwyddyn i ddod. Y Neuadd i barhau a'r £14K	**CLERC** **Cyngor Gwynedd wedi anfon manylion costau.**
4.3	Adroddodd y Swyddog Ariannol ei fod hyd yma heb dderbyn unrhyw ohebiaeth gan BDO.	**Ymateb wedi ei dderbyn bellach – adroddiad boddhaol.**
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion mis Tachwedd fel rhai cywir wedi gwneud fan newidiadau.	

6.0	**NEUADD**	
6.1	Mae allweddi ar gyfer yr hysbysfwrdd wedi eu derbyn, bydd angen eu rhannu i bobl sydd angen gosod gwybodaeth arno. Penderfynwyd archebu hysbysfwrdd arall a'i osod yn ymyl y llall. Y Clerc i archebu. Mae angen hysbysfwrdd mewnol ar y neuadd. Mae rhai yn y storfa a bydd angen eu codi. Y Cadeirydd hefyd am gael pris ar hysbysfwrdd magnetic.	**CLERC-cwblhau** **DW**
6.2	Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn pris am godi golau sensor ar gefn y neuadd, mae'r offer hefyd yn caniatáu ei symud drwy "remote control". Penderfynodd y Cyngor bod y pris yn dderbyniol £154.44. Y Cadeirydd i hysbysu'r trydanwr i gwblhau'r gwaith.	**DW**
6.3	Cafwyd gwybodaeth bod coed y clwb adar yn cael eu rhoi i glwb adar yn Aberystwyth a byddant yn cael eu symud bore'r 16 o Ragfyr 2018.	
6.4	Cafwyd gwybodaeth bod rhai o ddrysau'r neuadd angen sylw oherwydd y "door stop" - y Cadeirydd yn dilyn y mater i fyny gyda saer.	**DW**
6.5	Dywedyd bod Dafydd Lowe wedi dechrau ar ei waith. Penderfynwyd byddai yn derbyn lwfans defnyddio'i ffon sef £120 y flwyddyn. Bydd y Cadeirydd yn cyfarfod a'r gofalwr unwaith yr wythnos. Angen cytundeb ar gyfer y gofalwr.	**IH -**
6.6	Roedd y Cadeirydd wedi cael pris oddi wrth beintiwr i'r neuadd ond roedd y paentio yn mynd i gael ei wneud pan fyddai yn gallu cael amser. Y Cadeirydd i gael trafodaeth gydag ef i edrych os yw hyn yn dal yn bosib neu yw yn barod i'r neuadd roddi'r gwaith i'r gofalwr.	**DW**
6.7	Gobeithir bydd y gallu i hurio'r neuadd oddi ar y we yn fyw yn y dyddiau nesaf. Y Clerc i gael dogfen gan ddelwedd yn egluro sut mae'r broses yn gweithio , Y Clerc i drefnu cyfarfod gyda Delwedd a'r Swyddog Ariannol i weld sut mae'r sustem talu yn gweithio.	**CLERC – Sustem yn fwy. Dogfen yn mynd i gael ei wneud gan Delwedd. Dogfen wedi ei chynhyrchu a'u hanfon at y Swyddog Ariannol a'r Cadeirydd. Y clerc wedi gofyn am ddogfen ar gyfer y sustem talu hefyd.**
6.8	Mae ymholiad wedi ei dderbyn gan Elusen Cancer (Cancer Research UK) i ddefnyddio'r neuadd unwaith y mis ar nos Fercher. Penderfynwyd byddai hyn yn dderbyniol ond os byddai achos bod y neuadd eu hangen bob wythnos ar nos Fercher yna byddent yn derbyn mis o rybudd.	**CLERC – Gwybodaeth wedi ei anfon ond dim wedi derbyn ymateb.**
7.0	**ADRODDIAD COFEB Y CLOC**	
7.1	Gobeithir codi'r goeden Nadolig dydd iau 6ed o Ragfyr.	**CR- CWBLHAU**
8.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
8.1	C18/1029/20/LL – Estyniad Ochr – Henryd, Pendorlan, Y Felinhei, LL56 4JH – y Cyngor yn datgan consyrn ynglyn a'r wal gynnal oherwydd bod hanes symudiad yn y wal yn y blynyddoedd diweddar a heb dderbyn adroddiad struthurol ni	**CLERC**

	fyddai'r Cyngor yn gallu cyflwyno sylwadau.	
8.2	C18/0954/20/LL – Estyniad deulawr uwchben estyniad unllawr presennol – An 73, Hen Gei Llechi, Y Felinhei, LL56 4PE – y Cyngor yn datgan consyrn bod yr adeilad yn cael ei ddatblygu i eiddo 5 ystafell wely ond nid oes datganiad ynglyn a'r cyfleuster parcio angenrheidiol i 5 ystafell wely.	**CLERC**
9.0	**ADRODDIAD Y FYNWENT**	
9.1	Contract torri gwair y fynwent am 3 mlynedd angen ei hysbysebu am bris. Y tro yma bydd torri'r llwybrau cyhoeddus yn rhan o'r contract. Fe fydd contractwyr addas yn derbyn gwahoddiad i dendro. Gwybodaeth y contract i'w hanfon at y Cynghorydd Eifion Williams er mwyn iddo edrych drosti.	**CLERC/EW**
10.0	**ADRODDIAD MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
10.1	Cafwyd gwybodaeth bod un o'r coed wedi torri ar safle Moriah, efallai byddai'r "YOT" yn gallu ymdrin â'r mater. Y Clerc i wneud ymholiadau.	**CLERC**
10.2	Cafwyd gwybodaeth bod Cyngor Gwynedd i blannu coed ar y Lon Las i wneud yn iawn ar y rhai a'i torrwyd gan gontractwyr.	
11.0	**ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU**	
11.1	Y Cynghorydd Nerys John wedi gwneud ymholiadau ynglŷn phaent a primers i ffenestri'r cysodfannau. Mae paent ar gael sydd i'w ddefnyddio heb primer am bris o £14. Trafodwyd dau opsiwn, opsiwn 1 oedd mynd at yr ysgol i gael dyluniad ar gyfer cysgodfan gwaelod Tafarngrisiau; opsiwn 2 llogi gofod. Y Clerc i wneud ymholiadau gyda Cynghorau Cymunedol lleol i weld sut maent hwy yn delio a'r mater. Cynghorydd Nerys John i gysylltu efo Design Signs Penygroes a Regency signs am ragor o wybodaeth ynghylch sticio gwyneb newydd dros rai o ffenestri y cysgodfannau. Penderfynwyd cysidro arbrawf efo cysgodfan sydd yng ngwaelod allt Tafarngfrisiau.	**NJ**
11.2	Cysgodfan Aberpwll sydd i'w ail-godi. Edrych tua system gwell ar gyfer y pyst i ddal y gysgodfan. Cynghorwyr Dan ac Eifion i edrych ar opsiynnau sydd yn cael eu defnyddio ar gyfer 'verandas pren CCG	**EW/DW**
11.3	Mae arwydd wedi ei godi ar gyfer Llwybr Lon Bethel i'r Ffordd osgoi.	
12.0	**ADRODDIAD PRIFFYRDD**	
12.1	Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chynllun answyddogol i osod llinellau melyn a'r ddwy ochr ac ar hyd y ffordd i'r Marina. Mae busnesau'r ardal yn pryderu ynglŷn â math gynllun.	
13.0	**PROSIECTAU**	
13.1	Mae 100 o fylbiau gwanwyn wedi eu plannu rhwng yr arwyddion 30 a'r cwch.	
13.2	Penderfynwyd peidio a chysylltu â BT ynglŷn â'r ciosgau ffôn a gwneud dim hyd nes bydd BT yn ymgynghori ar eu dyfodol. Cafwyd wybod bod Kiosk Aberpwll wedi ei warchod 'Grade 2'	

	Nid yw kiosk Lan Mor wedi ei restru. Penderfynwyd peidio gwneud dim ymhellach am y tro.	
14.0	**GWYDNWCH CYMUNEDOL**	
	Y Cynghorydd Eifion Williams wedi llenwi'r ffurflen adborth. Bydd y ffurflen yn cael eu hanfon ymlaen gan y Clerc	**WEDI EI GWBLHAU**
15.0	**TOILEDAU CYHOEDDUS**	
15.1	Gan nad oes unrhyw wybodaeth wedi ei dderbyn ynglŷn â'r toiledau, bydd y Clerc yn cysylltu'n uniongyrchol a'r bragdy. Cyfeirio hefyd y mater at Dafydd Gobbard Cyngor Gwynedd.	**CLERC**
16.0	**GWEFAN**	
16.1	Gweler eitem 6.7 a 6.8.	
17.0	**MATERION AMRYWIOL**	
17.1	Penderfynwyd bod dyddiad cau derbyn cais am gymorth ariannol yn cael ei symud i Ionawr 30 gan fod newidiadau yn cael ei wneud i'r ffurflenni a bod yr amser yn brin i'w derbyn erbyn diwedd y flwyddyn.	**CLERC**
	MATERION YN CODI O'R COFNODION BLAENOROL	
6.2	Cofnodion blaenorol Window medic – Cynghorydd Eifion Williams i yrru manylion at y Cadeirydd.	
	Daeth y cyfarfodi ben oddeutu 22:20	
Llofnod:		**Dyddiad:**